| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cabinet |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 22 Ionawr 2019 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Julian Thompson-Hill/ Richard Weigh |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Richard Weigh |
| **Teitl:** | **Argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol (GBS)** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Cynigion cyfalaf Dyraniad Bloc a dderbyniwyd i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2019/20.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r tri phwyllgor craffu, wedi cyfarfod ar sawl achlysur i ystyried cynigion a baratowyd gan bob gwasanaeth.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cabinet yn cefnogi'r prosiectau a ddangosir yn Atodiad 1 i'w cynnwys yng nghynllun cyfalaf 2019/20, a'u hargymell yn unol â hynny i'r Cyngor llawn.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae Setliad Llywodraeth Leol Terfynol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr yn cynnwys dyraniad grant cyfalaf cyffredinol o £2.8m. Mae hyn yn gynnydd o £1.008m o'r Setliad Dros Dro, sy'n cydnabod y cyllid ychwanegol diweddar a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Disgwylir cadarnhad am grant cyfalaf cyffredinol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru gwerth £1.680m ar gyfer 2018-19. Oherwydd amseriad hyn, rhagwelir y bydd hyn yn rhyddhau swm cyfwerth ar gyfer 2019-20 ond gall fod yn destun amodau grant. Mae tybiaethau o ran sut all hyn gyfrannu tuag at y Cynllun, wedi eu nodi isod.

4.2 Mae'r Cyngor yn anelu at gael gwared ar nifer o safleoedd dros y tair blynedd nesaf. Mae cyfanswm y cyllid sydd ar gael yn 2019/20 yn cynnwys £70k o asedau sydd ar hyn o bryd yn symud ymlaen i gael eu gwaredu. Mae dyraniad y cyllid hwn i gynlluniau yn cael ei wneud dros dro nes y derbynnir y cyllid yn sgil gwaredu.

4.3 Dangosir y cyllid sydd ar gael ar gyfer 2019/20 isod:

| **Ffynhonnell** | **Swm £000** |
|---|---|
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 2,822 |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol – 2018-19 ychwanegol (yn destun cadarnhad) | 1,680 |
| Benthyca â Chymorth heb ei neilltuo | 2,982 |
| Benthyca Darbodus - Priffyrdd | 1,970 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 330 |
| Derbyniadau Cyfalaf y Dyfodol - Gwaredu asedau parhaus | 70 |
| Cyfraniad o gyllideb ariannu cyfalaf | 766 |
| **Cyfanswm y Cyllid sydd ar gael 2019/20** | **10,620** |

4.4 Mae’r Cynllun Cyfalaf yn gwario arian ar ddau fath o brosiect. Yn gyntaf mae prosiectau untro fel ysgol newydd; yr ail fath o wariant yw 'dyraniad bloc'. Mae'r rhain yn rhaglenni parhaus o waith sy'n ymestyn dros nifer o flynyddoedd (ac efallai byth yn gyflawn) e.e. cynnal a chadw ysgolion. Gellir talu am elfennau o'r gwaith hwn o gyllidebau atgyweirio a chynnal a chadw, ond mae rhan sylweddol yn cael ei ariannu drwy'r Cynllun Cyfalaf.

4.5 Mae Atodiad 1 yn dangos y prosiectau a restrir gyda ffynhonnell cyllid a argymhellir ar gyfer pob un wedi’i amlygu yn y golofn briodol. I egluro mwy, dylid nodi'r pwyntiau canlynol:

- Colofn PB Priffyrdd - £1.750m. Caiff hwn ei gefnogi gan y gyllideb refeniw fel blaenoriaeth gorfforaethol, sy’n destun cymeradwyaeth y Cyngor ar 29 Ionawr 2019. Yn ogystal, mae cais arfaethedig gwerth £220k am arian Salix wedi’i gynnwys.
- Colofn Cronfeydd wrth gefn y Cyngor - Mae'r rhain yn gronfeydd wrth gefn fel grantiau cyffredinol a derbyniadau cyfalaf.

4.6 Mae naratif i gefnogi argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol wedi’i gynnwys fel Atodiad 2

4.7 Dyma aelodau’r Grŵp Buddsoddi Strategol:

- Aelod Cabinet – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (Cadeirydd)
- Aelod Cabinet - Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Arweiniol dros yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol
- Aelod Cabinet - Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Isadeiledd Cymunedol
- Cynrychiolydd o bob Pwyllgor Craffu
- Cyfarwyddwr Corfforaethol - Economi a’r Parth Cyhoeddus
- Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151

- Pennaeth Cyfleusterau, Asedau a Thai (Landlord y Sir)
- Rheolwr Tîm Gwybodaeth Busnes

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae prosiectau wedi cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn bodloni Amcanion Corfforaethol y Cyngor.

**6. Beth fydd cost hyn a beth fydd ei effaith ar wasanaethau eraill?**

6.1 **Goblygiadau Cost**

Dangosir costau'r cynlluniau yn Atodiad 1. Bydd y costau Benthyca Darbodus yn cael eu diwallu drwy gyllideb refeniw 2019/20.

6.2 **Goblygiadau Staffio/TGCh/ Llety**

Mae'n ofynnol i bob prosiect newydd lenwi ffurflen Cynnig Prosiect neu Achos Busnes a bod unrhyw oblygiadau penodol yn cael eu trafod yn ystod y cam hwnnw.

6.3 **Asesiad o Effaith ar Newid Hinsawdd - Lliniaru ac Addasu:**

Mae prosiectau cyfalaf newydd yn destun craffu gan y Grŵp Buddsoddi Strategol. Bydd pob achos busnes yn dangos, lle bo'n briodol, allyriadau tunelli carbon perthnasol cyn ac ar ôl prosiect, gan nodi a yw'r prosiect yn cynyddu, lleihau neu ddim yn cael effaith ar allyriadau carbon. Yn ogystal, mae angen sicrhau bod prosiectau cyfalaf newydd yn ddiogel ar gyfer y dyfodol ac yn gallu addasu i newid yn yr hinsawdd.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Cwblhawyd Asesiad o Effaith llawn ar gyfer pob cais cyfalaf a adolygwyd gan y Grŵp Buddsoddi Strategol. Mae copi o bob Asesiad Lles unigol ar gael yn llyfrgell yr aelodau ar system Modern.gov.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Craffu ac eraill?**

Rhoddodd Penaethiaid Gwasanaeth gymeradwyaeth i gyflwyno'r ceisiadau. Mae cynrychiolwyr y pwyllgorau Cabinet a Chraffu wedi bod yn rhan o'r broses.

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei rannu gyda chadeiryddion pwyllgorau craffu er mwyn derbyn eu sylwadau.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'n rhaid i'r Cyngor barhau i fuddsoddi yn briodol yn ei asedau. Gall peidio â gwneud hynny achosi costau mwy sylweddol yn y tymor hir. Gyda'r lleihad parhaus mewn gwerth gwirioneddol benthyca â chymorth Llywodraeth Cymru, rhaid i'r Cyngor ddibynnu ar ei adnoddau ei hun yn gynyddol.

Mae’r argymhellion a gyflwynir yn cynnwys tybiaethau doeth o’r derbyniadau cyfalaf sy’n wybyddus. Mae’r sefyllfa ariannu yn dibynnu ar gadarnhad o gefnogaeth grant pellach gan y llywodraeth. Mae’r argymhellion a’r dyraniadau wedi eu cofnodi’n glir i ddangos y lefel o ariannu sydd wedi ei gadarnhau a beth allai fod ar gael unwaith y derbynnir cadarnhad am arian ychwanegol. Felly dylid blaenoriaethu cynlluniau gwario cyfalaf gwasanaeth ar y sail hon a pheidio â thybio'r dyraniad llawn nes bod y cyllid ychwanegol wedi ei gadarnhau.

Mae’r sefyllfa ariannu yn llai sicr ar gyfer Cynllun Cyfalaf 2019/20 nes derbyn cadarnhad o’r ffynonellau ariannu allanol amrywiol a nodir yn yr adroddiad. Dylai’r Grŵp Buddsoddi Strategol ail-ymweld â’r sefyllfa ariannu yn ystod 2019/20 er mwyn cadarnhau’r sefyllfa ac asesu os oes mwy o gyfleoedd ar gyfer buddsoddi.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Byddai risgiau posibl yn cynnwys cynlluniau’n peidio symud ymlaen, colli grant ac amhariad ar wasanaethau. Byddai cyflwr asedau yn parhau i ddirywio os na fuddsoddir, a gall hyn arwain at golli gwasanaethau pwysig.

10.2 Nid oes unrhyw brosiect cyfalaf heb risg. Fodd bynnag, mae’r holl gynlluniau’n cael eu hadolygu gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac maent hefyd yn destun monitro ac adrodd misol parhaus.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Gofynnir i Awdurdodau Lleol dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol (1972) wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn gywir.